# Arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth gydag unigolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag unigolion i ddatblygu cynlluniau gofal neu gymorth i fynd i'r afael â'u dewisiadau a'u hanghenion a rheoli cofnodion o'r cynlluniau mewn ffyrdd sy'n dangos perchnogaeth unigolion ohonynt. Mae hefyd yn cynnwys arwain y gwaith o roi'r cynlluniau ar waith a'u diwygio gyda chefnogaeth eraill i gwrdd â dewisiadau ac anghenion sy'n newid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth i unigolion
2. asesu, a chefnogi eraill i asesu, anghenion, dyheadau a dewisiadau unigolion
3. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i gadarnhau canlyniadau cynlluniau gofal neu gymorth
4. mynd ati gydag unigolion ac eraill i gyd-ddylunio cynlluniau personol sy’n adlewyrchu eu gwerthoedd, eu blaenoriaethau a’u canlyniadau
5. grymuso a chefnogi annibyniaeth unigolion i sicrhau ymreolaeth, dewis a diogelwch
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i reoli’r gwrthdaro rhwng dewisiadau personol, barn unigol, a pholisïau’r gweithle
7. darparu gwybodaeth ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol i ddewisiadau ac anghenion unigolion i lywio cynlluniau gofal neu gymorth
8. arwain y gwaith o ddatblygu prosesau asesu risg sy’n nodi’r risgiau posibl ac yn cefnogi cymryd risgiau cadarnhaol
9. sicrhau bod cynlluniau gofal neu gymorth yn defnyddio iaith sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau
10. sicrhau bod cynlluniau ar gael i unigolion ac eraill yn y fformat a’r iaith o’u dewis
11. arwain y gwaith o roi cynlluniau gofal neu gymorth ar waith, gan nodi lle na fu’n bosibl cwrdd â dewisiadau a pham
12. cefnogi’r adolygiadau o gynnydd tuag at ganlyniadau a sicrhau bod newidiadau’n cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gofal neu gymorth
13. mynd i’r afael â heriau sy’n deillio o newidiadau i adnoddau yn ogystal â dewisiadau, anghenion ac amgylchiadau unigolion
14. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl eraill o ran cyfrannu at y gwaith o ddatblygu, monitro ac adolygu cynlluniau gofal neu gymorth
2. sut mae nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cynllunio gofal neu gymorth
3. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i sicrhau bod cynlluniau gofal neu gymorth yn adlewyrchu eu dewisiadau a'u hanghenion
4. sut mae ystyried dewisiadau ac anghenion holistaidd unigolion wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gofal neu gymorth
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y broses o gynllunio gofal neu gymorth
6. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar y broses o gynllunio gofal neu gymorth
7. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
8. sut mae cydbwyso dewisiadau ac anghenion unigolion â barn pobl eraill
9. dulliau i gefnogi unigolion ac eraill i fynegi eu barn, rheoli gwrthdaro, a deall eu dewisiadau a'u hanghenion eu hunain o fewn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
10. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
11. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod y gwaith cynllunio gofal neu gymorth
12. sut mae sicrhau bod cynlluniau gofal neu gymorth yn cael eu cyflwyno mewn fformatau hygyrch
13. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
14. sut mae caffael a chael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau gofal neu gymorth
15. dulliau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau a chymryd risgiau cadarnhaol wrth gynllunio gofal neu gymorth, gan gynnwys pryderon diogelu
16. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth
17. y camau, y gweithdrefnau, y cofnodion a'r adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r

gwaith o ddatblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gofal neu gymorth
18. y gwahaniaeth rhwng cynllunio sy’n cael ei arwain gan anghenion a chynllunio sy’n cael ei arwain gan wasanaeth, a sut mae hyn yn dylanwadu ar yr adolygiad a newidiadau i gynlluniau gofal neu gymorth
19. strategaethau ar gyfer mynd i’r afael â newidiadau posibl mewn adnoddau, gwasanaethau neu amgylchiadau personol
20. yr heriau posibl sy'n gysylltiedig ag adolygu a newid cynlluniau gofal neu gymorth i’r unigolyn
21. theorïau sy’n berthnasol i arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth
24. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth, a sut i fynd i'r afael â hyn
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain y broses o gynllunio gofal neu gymorth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD45 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cynllunio Gofal neu Gymorth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |